6. Roedd canran y boblogaeth yng Nghymru a oedd yn 65 oed a throsodd yr uchaf o blith unrhyw gyfrifiad sef dros 18 y cant, cyfanswm o 563,000 o bobl. Roedd hyn yn gynydd o 57,000 o bobl yn y categori oedran hwn ers 2001, ac yn gynydd o 450,000 ers 1911 pan roedd 113,000 o bobl 65 oed a throsodd.
7. Roedd 25,000 o breswylwyr yng Nghymru a oedd yn 90 oed a throsodd yn 2011, o gymharu â 19,000 yn 2001 a 700 yn 1911.
8. Yn 2011, roedd 178,000 o blant o dan bump oed yng Nghymru, 11,000 yn fwy nag yn 2001.
9. Yng Nghymru, roedd dwysedd cyfartalog y boblogaeth yn 148 o breswylwyr fesul cilomedr sgwâr, a oedd yn is nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. Yr awdurdod unedol mwyaf poblog oedd Caerdydd, a oedd fwy na theirgwaith yn ddwysach ei boblogaeth na'r awdurdod unedol nesaf o ran dwysedd ei boblogaeth, sef Casnewydd. Mae dwysedd poblogaeth Caerdydd yn debyg i ddwysedd poblogaeth Newcastle upon Tyne yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.
10. Roedd 1.3 miliwn o gartrefi yng Nghymru ar noson y cyfrifiad. Maint cyfartalog cartrefi oedd 2.3 o breswylwyr fesul cartref yn 2011, yr un peth ag yn Lloegr, nad oedd wedi newid ers 2001. Yn 1911, roedd gan gartrefi yng Nghymru a Lloegr 4.3 o breswylwyr ar gyfartaledd, a oedd bron i ddwbl y cyfanswm presennol.
11. Tyfodd y boblogaeth ym mhob rhan o Gymru rhwng 2001 a 2011 heblaw am Flaenau Gwent, lle y bu dirywiad bach.
12. Yr awdurdodau unedol â'r twf canrannol mwyaf yn y boblogaeth oedd Caerdydd (12 y cant), Sir Benfro (8 y cant), a Phen-y-bont ar Ogwr (8 y cant).

Y cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad wedi casglu gwybodaeth am y boblogaeth bob 10 mlynedd ers 1801 (ar wahân i 1941). Cynhaliwyd y cyfrifiad diweddaraf yng Nghymru a Lloegr ar 27 Mawrth 2011.

Mae ystadegau'r cyfrifiad yn disgrifio nodweddion ardal, fel faint o ddynion a merched sydd yn y boblogaeth a'u hoeddrannau. Caiff yr ystadegau eu defnyddio i ddeall yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol o ran nodweddion poblogaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r wybodaeth hon yn ategu'r ffordd y dyrennir biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau fel addysg, trafnidiaeth ac iechyd. Caiff penderfyniadau eu gwneud yn feunyddiol ar sail ystadegau'r cyfrifiad. Mae'r rhain mor lleol â nifer y mannau parcio sydd eu hangen mewn archfarchnadoedd, i raglenni ehangach, er enghraifft, ble i dargedu cynlluniau hyfforddi'r llywodraeth. Mae nifer y lleoedd mewn ysgolion, tai, cartrefi gofal, neu ddatblygu systemau rheoli traffig neu ariannu awdurdodau lleol ac unedol oll yn cael eu dylanwadu gan y cyfrifiad.

Cyflawnodd Cyfrifiad 2011 ei gyfradd ymateb targed gyffredinol sef 94 y cant o'r boblogaeth sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr, a thros 80 y cant ym mhob awdurdod lleol ac unedol. Amcangyfrifir yr amcangyfrif o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr sef 56.1 miliwn gyda lefel hyder o 95 y cant ei fod yn gywir i o fewn +/- 85,000 (0.15 y cant).

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2011 a gynhaliwyd gan SYG gyfanswm poblogaeth Cymru a Lloegr. Cafwyd ymateb da i Gyfrifiad 2011 ond, yn anochel, ni lwyddwyd i gynnwys rhai pobl. Mae'r broblem o ran cwmpas anghyflawn mewn cyfrifiad yn un sy'n effeithio ar gyfrifwyr ym mhobman a chynlluniodd SYG dulliau a phrosesau i fynd i'r afael â hyn. Cynhaliwyd Arolwg Cwmpas o'r Cyfrifiad i fesur cwmpas anghyflawn mewn sampl o ardaloedd ac, yn seiliedig ar hyn a dulliau amcangyfrif manwl gywir, mae amcangyfrifon o'r boblogaeth y cyfrifiad yn cynrychioli 100 y cant o'r boblogaeth sydd fel arfer yn byw ym mhob ardal. Roedd y dulliau amcangyfrif yn destun adolygiad annibynnol gan gymheiriad a ddaeth i'r casgliad fod y gweithdrefnau pellach ar gyfer [Sicrhau Ansawdd ac addasu](#) yn atgyfnerthu strategaeth SYG ar gyfer amcangyfrif y boblogaeth yn llwyddiannau i raddau sylweddol.

Dilynwyd proses sicrhau ansawdd helaeth ar gyfer holl amcangyfrifon y cyfrifiad, gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth cenedlaethol a lleol eraill at ddibenion cymharu ac adolygu, gan gyfres o baneli sicrhau ansawdd. Caiff ystod eang o bapurau sicrhau ansawdd, gwerthuso a methodoleg eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r wybodaeth hon. Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu amcangyfrif ansawdd uchel o'r boblogaeth y gall pobl ei ddefnyddio â hyder.

Ni chaiff gwybodaeth bersonol o'r cyfrifiad ei rhannu ag unrhyw adran arall o'r llywodraeth yn genedlaethol, yn rhanbarthol nac yn lleol. Cedwir y wybodaeth a gesglir yn gyfrinachol gan SYG, ac fe'i diogelir gan y gyfraith. Ni ryddheir cofnodion y cyfrifiad am 100 mlynedd.

Manylion gweithredol Cyfrifiad 2011

Yng Nghymru a Lloegr, cafodd 25.4 miliwn o holiaduron eu postio, a dosbarthodd dros 1,700 o gyfrifwyr arbennig holiaduron â llaw i leoedd fel neuaddau preswyl prifysgolion, carchardai a chartrefi gofal. Cyflogwyd tîm o 35,000 o staff i helpu pobl i lenwi a dychwelyd eu holiaduron. Hefyd, gallai ymatebwyr lenwi eu holiadur ar lein. Gallai preswylwyr yng Nghymru ddewis ymateb i'r cyfrifiad yn Gymraeg neu Saesneg.

Y gyfres gyntaf o ystadegau Cyfrifiad 2011

Caiff ystadegau o Gyfrifiad 2011 eu rhyddhau fesul cam dros y 18 mis nesaf. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynhyrchion a'r amserlen ym [mhrosbectws Cyfrifiad 2011](http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html>). Mae'r bwletin hwn, sef Cyfrifiad 2011 – Amcangyfrifon o Boblogaeth a Chartrefi Cymru: Mawrth 2011, yn cynrychioli'r gyfres gyntaf o ystadegau Cyfrifiad 2011, ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â bwletin sy'n cwmpasu canlyniadau ar gyfer Cymru a Lloegr, sef [2011 Census - Population and Household Estimates for England and Wales: March 2011](#).

Mae'r bwletin hwn yn crynhoi'r boblogaeth sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn ôl oedran a rhyw^[cyflwyniad, troednodyn 1].

Caiff ystadegau'r DU eu llunio a'u cyhoeddi gan SYG ar ôl i'r tair asiantaeth ystadegol gyhoeddi'r data perthnasol. Mae'r pynciau eraill a gwmpesir yn y bwletin hwn yn cynnwys nifer y cartrefi a dwysedd poblogaeth. Cyflwynir canlyniadau ar gyfer Cymru ac ar gyfer awdurdodau unedol. Rhyddheir canlyniadau ar gyfer lefelau daearyddol is yn ddiweddarach eleni.

Cyd-destun Cyfrifiad 2011

Mae'r bwletin hwn yn defnyddio gwybodaeth arall a luniwyd gan SYG, gan gynnwys data o'r [amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth](http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/index.html>) yn ogystal ag ystadegau ar [enedigaethau](http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/birth-summary-tables--england-and-wales/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/birth-summary-tables--england-and-wales/index.html>), [marwolaethau](http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/death-reg-sum-tables/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/vsob1/death-reg-sum-tables/index.html>) a [mudol rhyngwladol](http://www.ons.gov.uk/ons/rel/migration1/migration-statistics-quarterly-report/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/migration1/migration-statistics-quarterly-report/index.html>). Mae hefyd yn cysylltu â delweddau data perthnasol a luniwyd gan SYG i helpu i ddehongli'r ffigurau. Gwneir cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr. Hefyd, defnyddir ystadegau a luniwyd gan [Eurostat](http://epp.eurostat.ec.europa.eu/) (<http://epp.eurostat.ec.europa.eu/>), yr asiantaeth ystadegol Ewropeaidd, er mwyn dangos amcangyfrifon cyfrifiad Cymru a Lloegr mewn cyd-destun Ewropeaidd.

Caiff yr ystadegau yn y gyfres hon eu defnyddio fel sail i amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2011. Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer y boblogaeth fel yr oedd ar 30 Mehefin bob blwyddyn. Bwriedir rhyddhau amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2011 sy'n seiliedig ar y cyfrifiad ym mis Medi 2012. Maes o law, aibennir sail amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2002-2010 gan ddefnyddio'r hyn rydym bellach yn ei wybod o Gyfrifiad 2011; cyhoeddir yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol yr aibennwyd ei sail erbyn diwedd 2012 a rhyddheir amcangyfrifon is-genedlaethol yn ystod gwanwyn 2013.

1. Poblogaeth Cymru a sut mae wedi tyfu


Yn 2011, roedd poblogaeth Cymru yn 3.06 miliwn (5.5 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru a Lloegr), sef ei lefel uchaf erioed. Roedd 1.50 miliwn o ddynton ac 1.56 miliwn o ferched yng Nghymru.

Ers 2001, mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu 153,000 (5.3 y cant) ar yr amcangyfrif o 2.9 miliwn o breswylwyr, ac mae wedi cynyddu 643,000 o breswylwyr (27 y cant) ar amcangyfrif Cyfrifiad 1911 o 2.4 miliwn. Am bob pedwar preswlydd yng Nghymru yn 1911, roedd pump yn 2011.

Dengys Ffigur 1 *Preswylwyr rhwng 1801^[adran 1, troednodyn 1] a 2011^[adran 1, troednodyn 3]* y twf hirdymor yn y boblogaeth sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Ar y graff, gwelir cynnydd sylweddol rhwng 2001 a 2011, sy'n dangos y cafwyd y twf mwyaf erioed yn nifer y boblogaeth mewn cyfnod 10 mlynedd rhwng cyfrifiadau ers 1921^[adran 1, troednodyn 1].

Cynyddodd y boblogaeth yn gymharol gyflym rhwng 1801 ac 1921, gan dyfu mwy na 10 y cant yn y rhan fwyaf o'r cyfnodau 10 mlynedd rhwng cyfrifiadau, cyn dirywio yn 1931 ac yna dyfu ar gyfradd o rhwng 1.3 y cant a 3.3 y cant ym mhob cyfnod 10 mlynedd tan 2001.

Ffigur 1 Preswylwyr rhwng 1801 a 2011
Cymru



Ceir newidiadau mewn poblogaeth oherwydd gwahaniaethau rhwng nifer y genedigaethau a marwolaethau, yn ogystal â chyfraddau mudo. Dengys data ar enedigaethau a marwolaethau, rhwng 2001 a 2011, fod 332,700 o enedigaethau a 320,900 o farwolaethau yng Nghymru, gan arwain at gynnydd o tua 11,900 o breswylwyr. Mae hyn yn cyfrif am 8 y cant o'r cynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth, ac mae'n adlewyrchu cynnydd cyson mewn cyfraddau ffrwythlondeb yng Nghymru ers 2001, gyda gweddill y twf yn y boblogaeth yn deillio o fudo. Dengys Tabl 1 *Newid yn y boblogaeth rhwng 2001^[adran 1, troednodyn 3] a 2011* y newid yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011 fesul awdurdod unedol.

Tabl 1 Newid yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011
Awdurdodau unedol Cymru

Awdurdod unedol	Poblogaeth 2001 (nifer)	Poblogaeth 2011 (nifer)	Newid ers 2001 (y cant)
Caerdydd	310,100	346,100	11.6
Sir Benfro	113,100	122,400	8.2
Pen-y-bont ar Ogwr	128,700	139,200	8.2
Sir Fynwy	85,000	91,300	7.4
Abertawe	223,500	239,000	6.9
Casnewydd	137,600	145,700	5.9
Bro Morgannwg	119,300	126,300	5.9
Sir Gaerfyrddin	173,700	183,800	5.8
Caerffili	169,500	178,800	5.5
Powys	126,400	133,000	5.2
Conwy	109,700	115,200	5.0
Wrecsam	128,500	134,800	4.9
Merthyr Tudful	56,200	58,800	4.6
Gwynedd	116,800	121,900	4.4
Castell-nedd Port Talbot	134,400	139,800	4.0
Ynys Môn	67,800	69,700	2.8
Sir y Fflint	148,600	152,500	2.6
Rhondda Cynon Taf	231,900	234,400	1.1
Ceredigion	75,400	75,900	0.7
Sir Ddinbych	93,100	93,700	0.6
Torfaen	90,900	91,100	0.2
Blaenau Gwent	70,000	69,800	-0.3
Cymru	2,910,200	3,063,500	5.3
Lloegr	49,451,100	53,012,500	7.2


Arweiniodd dau batrwm mudo i mewn i Gymru at dwf; mudo rhyngwladol, a symud o rannau eraill o'r DU.

Cynyddodd mudo rhyngwladol i mewn i Gymru 46 y cant rhwng 2005 a 2008, ar ôl i 10 o wledydd ddod yn aelodau o'r UE yn 2004, gan roi'r hawl i breswylwyr y gwledydd hyn fyw yn y DU. Cafwyd dirywiad mewn cyfraddau mudo rhyngwladol ers hynny^[adran 1, troednodyn 4].

Yr ail elfen o'r ddau fath hyn o fudo oedd llifau rhwng Cymru a gweddill y DU. Bu mewnlifiad net i Gymru o weddill y DU ym mhob blwyddyn rhwng 2001 a 2011, ar gyfartaledd o 6,800 o breswylwyr y flwyddyn, ac roedd y rhan fwyaf o'r llifau mudo rhwng Cymru a Lloegr.

Dengys Ffigur 2 *Newid canrannol yn y boblogaeth rhwng 2001*^[adran 1, troednodyn 3] a 2011 gymhariaeth rhwng cyfraddau twf Cymru a rhanbarthau Lloegr yn ogystal â Lloegr yn ei chyfanrwydd.

Ffigur 2 Newid canrannol yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011
Lloegr, Cymru, rhanbarthau Lloegr



Roedd y gyfradd twf ar gyfer poblogaeth Cymru yn is na'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr, ond roedd yn uwch na Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr. Roedd y gyfradd twf yng Nghymru ychydig yn is na hanner yr hyn a welwyd yn Llundain, a oedd â'r twf mwyaf o blith holl ranbarthau Lloegr.

Yng Nghymru, tyfodd Caerdydd ar gyfradd y gellir ei chymharu â rhanbarth Llundain, sef 12 y cant. Roedd Caerdydd yn un o bedwar awdurdod unedol yng Nghymru a dyfodd ar gyfraddau a oedd yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Lloegr. Yr awdurdodau unedol eraill oedd Sir Benfro, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Fynwy. Mae'r rhesymau dros dwf yn y boblogaeth yn amrywio ledled rhanbarthau Cymru a Lloegr. Mewn rhanbarthau fel Llundain gwelwyd twf yn cael ei lywio gan fwy o enedigaethau na marwolaethau a mudo, tra yng Nghymru a rhanbarthau Lloegr fel De-orllewin

Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr, mae mudo yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r newid yn y boblogaeth.

Yn ogystal â'r bobl sy'n byw yma fel arfer, mae Cyfrifiad 2011 wedi amcangyfrif nifer y bobl nas ganwyd yn y DU a oedd yn 'breswylwyr byrdymor'. Mae'r rhain yn bobl a oedd (neu a oedd yn bwriadu bod) yng Nghymru a Lloegr am dri mis o leiaf ond nad oeddent yn disgwyl bod yma am flwyddyn gyfan, ac felly nad oeddent yn rhan o'r boblogaeth a oedd yn byw yma fel arfer. Lluniwyd yr amcangyfrif o breswylwyr byrdymor i ddarparu darlun mwy cyfannol o gyfanswm y boblogaeth ond mae'n seiliedig ar ymatebion eitem llai cyflawn (h.y. y cwestiwn am y bwriad i aros) na'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer pynciau eraill ac felly nid yw o'r un ansawdd uchel â'r amcangyfrifon o'r boblogaeth. Fe'i defnyddiwyd i helpu i sicrhau ansawdd yr amcangyfrifon o'r boblogaeth breswyl ac fe'i cynhwysir yn y wybodaeth sicrhau ansawdd. Mae'r wybodaeth hon yn dangos, ar noson y cyfrifiad, fod 7,200 o breswylwyr byrdymor yng Nghymru. O'r grŵp hwn, roedd 40 y cant yng Nghaerdydd.

Mae amcangyfrif y cyfrifiad ar gyfer preswylwyr byrdymor nas ganwyd yn y DU^[adran 1, troednodyn 5] yn brocsi ar gyfer mudwyr byrdymor â rhai gwahaniaethau diffiniadol. Caiff ei gymharu ag amcangyfrifon arbrofol SYG o fudwyr byrdymor a chaiff adroddiad cysoni ei lunio.

2. Sut mae amcangyfrifon y cyfrifiad yn cymharu ag amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2010

Yr amcangyfrif cyhoeddedig diweddaraf o'r boblogaeth ar gyfer Cymru, cyn rhyddhau'r canlyniadau cyfrifiad hyn, yw'r amcangyfrif canol blwyddyn dynodol o'r boblogaeth ar 30 Mehefin 2010 sef 3.02 miliwn o bobl. Petai SYG yn diweddarau'r ffigur hwn ar gyfer genedigaethau, marwolaethau a mudo rhyngwladol net rhwng 1 Gorffennaf 2010 a 27 Mawrth 2011, byddai'r amcangyfrif o'r boblogaeth ar gyfer Cymru ar noson y cyfrifiad tua 3.03 miliwn o breswylwyr. Mae cymharu'r ffigur hwn ag amcangyfrif y cyfrifiad o 3.06 miliwn yn golygu bod y cyfrifiad yn amcangyfrif ychydig o dan 37,000 yn fwy o breswylwyr na'r amcangyfrifon o'r boblogaeth a gariwyd ymlaen. [Mae SYG wedi cyhoeddi adroddiad sy'n egluro'r gwahaniaeth hwn ar y cyd â'r wybodaeth hon.](#)


3. Sut mae poblogaeth Cymru wedi newid dros y 100 mlynedd ddiwethaf

Roedd pobl yng Nghymru yn byw'n hirach yn 2011 na chan mlynedd yn ôl. Gellir gweld hyn yn Ffigur 3 *Y boblogaeth yn ôl grwpiau oedran cyffredinol rhwng 1911 a 2011*^[adran 3, troednodyn 1]^[adran 3, troednodyn 2]^[adran 3, troednodyn 3], sy'n dangos bod cyfran y boblogaeth o dan 15 oed yn gostwng, tra bod y gyfran 65 oed a throsodd yn cynyddu.

Roedd canran y preswylwyr 65 oed a throsodd ar ei huchaf erioed o blith unrhyw gyfrifiad sef 18.4 y cant, sy'n golygu bod mwy nag un o bob chwe phreswyllydd yn y boblogaeth yn 65 oed a throsodd yn 2011. Yn 1911, dim ond un o bob 20 o breswylwyr oedd yn 65 oed a throsodd.

Mae cyfran y boblogaeth 90 oed a throsodd wedi cynyddu'n sylweddol dros y ganrif ddiwethaf. Roedd 25,000 o breswylwyr 90 oed a throsodd yn 2011 o gymharu â 19,400 yn 2001, a 700 yn 1911.


Ffigur 3 Y boblogaeth yn ôl grwpiau oedran cyffredinol rhwng 1911 a 2011
Cymru



Gall y newid yng nghyfansoddiad cyffredinol y boblogaeth o iau i hŷn gael ei weld hefyd yn y cynnydd yn oedran canolrif y boblogaeth o 25 oed yn 1911 i 41 yn 2011. Yr oedran canolrif ar gyfer dynion yn 2011 oedd 40 a'r oedran canolrif ar gyfer merched oedd 42. Byddai'r cynnydd mewn oedran canolrif yn fwy nodedig os na fyddai twf wedi bod yn y grwpiau oedran iau o ganlyniad i fudo.

Gellir dangos strwythur newidiol y boblogaeth yng Nghymru, sydd wedi'i diffinio yn ôl oedran a rhyw, ar ffurf pyramid poblogaeth. Dengys Ffigur 4 *Pyramid poblogaeth ar gyfer preswylwyr, 2011 a 2001*^[adran 3, troednodyn 3]^[adran 3, troednodyn 4] y newidiadau yn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Ffigur 4 Pyramid poblogaeth ar gyfer preswylwyr, 2011 a 2001
Cymru



Mae gwedd gyffredinol pyramid poblogaeth Cymru ar gyfer 2001 a 2011 yn cynrychioli poblogaeth sy'n heneiddio. Er bod y pyramid yn amrywio o ran lled, nid yw'n dechrau mynd yn gulach a hynny'n gyson tan y grwpiau oedran hŷn. Yn achos dynion a merched, mae'n amlwg y bu twf sylweddol yn nifer y bobl yn eu 60au (symudodd pobl a anwyd ar anterth genedigaethau ar ôl yr Ail Ryfel Byd i'r grŵp hwn), yn ogystal â thwf yn nifer y bobl yn eu 80au a 90au.

Mae manylion y pyramid yn dangos digwyddiadau mwy penodol. Ar y cyfan, adlewyrcha amrywiadau yn lled y pyramid gyfnodau lle cafwyd niferoedd uchel ac isel o enedigaethau. Ym mhyramid 2011, mae'r ardaloedd llydan ar gyfer pobl rhwng 40 a 49 oed a 63 a 64 oed yn cynrychioli'r nifer mawr o fabanod a anwyd yn y 60au a'r cynnydd mewn genedigaethau ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Mae gwaelod pyramid 2011 yn lledaenu o naw oed am i lawr gan ddangos bod mwy o enedigaethau mewn blynyddoedd diweddar. Roedd 11,300 yn fwy o blant o dan bump oed yn 2011 nag yn 2001. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o gynnydd yng nghyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb^[adran 3, troednodyn 5] a nifer y merched o oedran esgor yn y boblogaeth sydd fel arfer yn byw yma dros y cyfnod o 10 mlynedd. Mae'r cynnydd yn nifer y merched o oedran esgor (15-45) yn deillio'n bennaf o fudo i mewn i Gymru dros y degawd diwethaf.

Ceir rhagor o byramidau poblogaeth ar gyfer 2001 a 2011, [gan gynnwys y rhai ar gyfer awdurdodau unedol](#), ar wefan SYG.

Y boblogaeth iau

Ar wahân i Wrecsam, bu lleihad yn nifer y plant rhwng 0 a 14 oed ym mhob awdurdod unedol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau unedol bu cynnydd yn nifer y plant rhwng 0 a 4 oed, fel a ddigwyddodd ym mhob awdurdod lleol ac unedol yn Lloegr.

Gostyngodd canran y boblogaeth rhwng 0 a 14 oed ym mron pob awdurdod unedol, gyda'r gostyngiad mwyaf ym Mlaenau Gwent, tri phwynt canran i 17 y cant. Dengys Map 1 *Newid ym maint bandiau oedran (0-14 a 65 a throsodd) rhwng 2001 a 2011* fod llai o ostyngiad yng Ngogledd-ddwyrain Cymru ac yn yr awdurdodau unedol o amgylch Abertawe.

Bu cynnydd yng nghyfran y preswylwyr rhwng 15 a 29 oed ym mhob awdurdod unedol. Roedd y cynnydd hwn yn arbennig o nodedig yng Nghaerdydd; roedd mwy na 25 y cant o breswylwyr yng Nghaerdydd rhwng 15 a 29 oed, sef cynnydd o bedwar pwynt canran ers 2001.

Gwelwyd cynnydd mawr o dri phwynt canran yn y grŵp oedran 15-29 mewn awdurdodau unedol trefol eraill, fel Casnewydd ac Abertawe, yn ogystal â Merthyr Tudful, er, fel yr awdurdod unedol lleiaf yng Nghymru (o ran ei boblogaeth), mae'r twf ym Merthyr Tudful yn y grŵp oedran hwn yn 2,000 o bobl.

Yr oedran gweithio (15-64) a phoblogaethau hŷn

Mae cyfran y boblogaeth rhwng 15 a 64 oed yn bwysig am fod gweithgarwch economaidd preswylwyr sy'n gweithio yn cefnogi'r gwasanaethau sydd eu hangen ar breswylwyr nad ydynt yn gweithio, fel ysgolion a chartrefi gofal. Mae'r band oedran hwn wedi cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio ond brasamcan ydyw gan na fydd unrhyw blant 15 oed a nifer bach iawn rhwng 16 a 18 oed yn gweithio tra y bydd rhai pobl sydd dros 64 oed yn gweithio.

Ceir chwe awdurdod unedol lle mae cyfran y grŵp oedran 15-64 wedi gostwng rhwng 2001 a 2011. Y rhain yw Ynys Môn, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Powys, Wrecsam a Sir Benfro. Fodd bynnag,


mae'r grŵp oedran hwn yn dal i gynnwys y rhan fwyaf o'r boblogaeth ac mae dros 60 y cant ym mhob awdurdod unedol. Yn 2001, roedd y grŵp oedran 15-64 yn cyfrif am 64 y cant o'r boblogaeth ledled Cymru ac yn 2011 roedd yn cyfrif am 65 y cant; cynnydd o un pwynt canran.

Heblaw am Gaerdydd ac Abertawe, cafwyd cynnydd yng nghyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd ym mhob awdurdod unedol a ddangosir ym Map 1 *Newid ym maint bandiau oedran (0-14 a 65 a throsodd) rhwng 2001^[adran 3, troednodyn 3] a 2011*. Gwelwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn mewn ardaloedd gwledig. Yn Ynys Môn y cafwyd y cynnydd mwyaf o bedwar pwynt canran; mae'r rheini sy'n 65 oed a throsodd bellach yn cyfrif am 22 y cant o'r boblogaeth. Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o'r grŵp oedran hwn ar 13 y cant.

Fodd bynnag, mae cryn dipyn o'r cynnydd yn y boblogaeth 65 oed a throsodd wedi'i gyfyngu i'r grŵp oedran 65-69, a welodd gynnydd fel cyfran o'r boblogaeth ym mhob awdurdod unedol. Cynyddodd y grŵp oedran hwn yn awdurdodau unedol Ynys Môn a Phowys, ac ni fu unrhyw gynnydd cymaradwy mewn grwpiau oedran dros 65-69.

Map 1 Newid ym maint bandiau oedran (0-14 a 65 oed a throsodd) rhwng 2001 a 2011
Awdurdodau unedol Cymru

A) Preswylwyr arferol rhwng 0 a 14 oed **B) Preswylwyr arferol 65 oed a throsodd**




Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012
Yn cynnwys data Arolwg Ordians (h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012

4. Dwysedd poblogaeth Cymru

Mae cyfanswm nifer y preswylwyr arferol, ar y cyd â gwybodaeth am arwynebedd ardal sydd ar gael ar wefan daearyddiaeth SYG (<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/products/other/uk-standard-area-measurements--sam-/index.html>), yn ei gwneud hi'n bosibl i gyfrifo dwysedd poblogaeth. Yng Nghymru, mae'r dwysedd poblogaeth cyfartalog yn 148 o bobl fesul cilomedr sgwâr, er bod cryn amrywiad o ran dwysedd poblogaeth Cymru. Mae hyn o gymharu â dwysedd poblogaeth cyfartalog Lloegr o 407 o bobl fesul cilomedr sgwâr (356 o bobl fesul cilomedr sgwâr pan gaiff Llundain ei eithrio). Yn rhyngwladol, mae dwysedd poblogaeth Cymru yn debyg i Ddenmarc sydd â 129 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gymariaethau rhyngwladol ar gyfer Cymru a Lloegr yn [2011 Census – Population and Household Estimates for England and Wales: March 2011](#).

Mae gan Gaerdydd ddwysedd poblogaeth sylweddol uwch nag unrhyw ardal awdurdod unedol arall yng Nghymru, sef 2,465 o bobl fesul cilomedr sgwâr; dwysedd poblogaeth sy'n debyg i Newcastle upon Tyne, sydd â 2,470 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae dwysedd poblogaeth Caerdydd dros deirgwaith dwysedd poblogaeth Casnewydd, sydd â'r dwysedd uchaf nesaf o 765 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yr awdurdod unedol â'r dwysedd poblogaeth isaf yw Powys sydd â 27 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Dangosir yr amrywiad hwn yn y dwysedd poblogaeth rhwng yr awdurdodau unedol yn Ffigur 5 *Dwysedd poblogaeth, 2011*.


Ffigur 5 Dwysedd poblogaeth, 2011
Awdurdodau unedol Cymru



O roi'r 348 o awdurdodau lleol ac unedol yng Nghymru a Lloegr mewn trefn o ran dwysedd poblogaeth, mae Caerdydd yn y 74ain safle uchaf ac mae Powys yn y safle olaf ond un. At hynny, mae pum awdurdod unedol (Powys, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin) ymhlith yr 20 o awdurdodau lleol ac unedol â'r dwysedd poblogaeth isaf ledled Cymru a Lloegr.

Mae dwysedd poblogaeth Cymru yn is nag unrhyw ranbarth yn Lloegr, ac mae dros draean maint y cyfartaledd ar gyfer Lloegr. Dengys Ffigur 6 *Dwysedd poblogaeth Cymru a rhanbarthau Lloegr y tu allan i Lundain, 2011* gymhariaeth rhwng Cymru a rhanbarthau Lloegr, yn ogystal â Lloegr yn ei chyfanrwydd.

Ffigur 6 Dwysedd poblogaeth Cymru a rhanbarthau Lloegr y tu allan i Lundain, 2011



Mae gan y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr ddwysedd poblogaeth sydd fwy na dwywaith dwysedd poblogaeth Cymru. Mae gan y rhanbarth lleiaf poblog yn Lloegr, sef y De-orllewin, 50 y cant yn fwy o bobl fesul cilomedr sgwâr ar gyfartaledd na Chymru.


5. Nifer y cartrefi yn 2011

Roedd 1.30 miliwn o gartrefi yng Nghymru ar 27 Mawrth 2011, sef cynnydd o 7.4 y cant o gymharu â'r 1.21 miliwn o gartrefi yn 2001. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 7.5 y cant yn Lloegr yn ystod yr un cyfnod. Mae Cymru yn cyfrif am 6 y cant o'r cartrefi yng Nghymru a Lloegr, fel ag y gwnaeth yn 2001^[adran 5, troednodyn 1].

Map 2 Cyfradd twf preswylwyr a chartrefi rhwng 2001 a 2011.
Awdurdodau unedol Cymru

A) Preswylwyr arferol

B) Cartrefi



Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol (h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012
Yn cynnwys data Arolwg Ordnans (h) Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2012

Yn 2011, roedd maint cyfartalog cartrefi^[adran 5, troednodyn 2] yng Nghymru yn 2.3 o breswylwyr fesul cartref, ychydig yn is nag yn Lloegr. Tra bod nifer y cartrefi wedi cynyddu ychydig yn gyflymach na'r boblogaeth dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, mae maint cyfartalog cartrefi wedi lleihau.

Mae maint cyfartalog cartrefi yn eithaf cyson (rhwng 2.2 a 2.4 o breswylwyr fesul cartref) ym mhob awdurdod unedol yng Nghymru, ac mae'n amrywio i raddau llawer llai nag yn Lloegr, lle mae maint cyfartalog cartrefi yn amrywio rhwng 1.6 a 3.0.

Mae'r gyfradd twf o 7.4 y cant yn nifer y cartrefi yn debyg i'r twf yn Lloegr er, yn yr un modd â nifer y preswylwyr, ceir amrywiad sylweddol ledled Cymru fel y gwelir yn Nhabl 2 *Awdurdodau unedol yn ôl y newid canrannol yn nifer y cartrefi rhwng 2001*^[adran 5, troednodyn 1] a 2011.

Tabl 2 Awdurdodau unedol yn ôl y newid canrannol yn nifer y cartrefi rhwng 2001 a 2011
Awdurdodau unedol Cymru

Awdurdod unedol	Cartrefi 2001 (nifer)	Cartrefi 2011 (nifer)	Newid (y cant)
Caerdydd	125,800	142,600	13.3
Sir Benfro	47,700	53,100	11.3
Bro Morgannwg	48,700	53,500	9.8
Pen-y-bont ar Ogwr	53,400	58,500	9.7
Abertawe	94,500	103,500	9.5
Sir Fynwy	35,200	38,200	8.4
Powys	53,900	58,400	8.4
Casnewydd	56,800	61,200	7.7
Caerffili	69,400	74,500	7.4
Sir Gaerfyrddin	73,500	78,800	7.3
Wrecsam	53,200	57,000	7.1
Gwynedd	49,300	52,500	6.6
Conwy	48,100	51,200	6.4
Ynys Môn	28,800	30,600	6.3
Rhondda Cynon Taf	94,600	99,700	5.4
Sir y Fflint	60,600	63,800	5.3
Castell-nedd Port Talbot	57,500	60,400	5.0
Merthyr Tudful	23,200	24,300	4.5
Blaenau Gwent	29,600	30,400	2.8
Torfaen	37,600	38,500	2.5
Sir Ddinbych	39,900	40,500	1.4
Ceredigion	31,200	31,600	1.1
Cymru	1,212,500	1,302,700	7.4
Lloegr	20,523,000	22,063,400	7.5

Nodiadau cefndir

Efallai na fydd y ffigurau'n fanwl gywir am eu bod wedi'u talgrynnu.

Oni nodir fel arall, gwneir cymariaethau â 2011 ac 1991 gan ddefnyddio [amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth](http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/index.html>) a [ffigurau cyfresi hanesyddol amcanestyniadau cartrefi](http://www.communities.gov.uk/housing/housingresearch/housingstatistics/housingstatisticsby/householdestimates/livatables-households/) (<http://www.communities.gov.uk/housing/housingresearch/housingstatistics/housingstatisticsby/householdestimates/livatables-households/>) gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Gwneir cymariaethau ag 1981 a blynyddoedd cynharach gan ddefnyddio amcangyfrifon y cyfrifiad.

Yn wahanol i'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cydrannau newid; cyfran y twf y gellir ei phriodoli i enedigaethau a marwolaethau o gymharu â mudo net.

Fel rheol, preswylfa arferol unigolyn yw'r cyfeiriad lle mae'n aros y rhan fwyaf o'r amser. Yn achos llawer o bobl, eu cartref parhaol neu gartref y teulu fydd hwn. Os nad oedd gan aelod o'r lluoedd arfog gyfeiriad parhaol neu gyfeiriad y teulu lle mae'n byw fel arfer, nodwyd ei fod yn byw yn ei ganolfan filwrol fel arfer.

Mae SYG yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd cyfrifiadau eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar yr un pryd, y naill gan Gofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) a'r llall gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA).

Bu swyddogion o Lywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio Cyfrifiad 2011. Caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar bob lefel o ran trefniadau llywodraethu'r cyfrifiad. Yn benodol, yn ystod 2011 a 2012, bu ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r broses sicrhau ansawdd a chynlluniau ar gyfer ystadegau'r cyfrifiad.

Gofynnodd holiaduron y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yr un cwestiynau ac eithrio un; cafodd cwestiwn ychwanegol am yr iaith Gymraeg ei gynnwys yn yr holiadur a ddosbarthwyd yng Nghymru.

Mae SYG yn gyfrifol am gyhoeddi ystadegau'r DU (llunio ystadegau cymharol gan asiantaethau ystadegol y DU a nodir uchod). Caiff yr ystadegau hyn eu llunio wrth i bob un o'r tair asiantaeth ystadegol dan sylw gyhoeddi'r data perthnasol. Mae [prospectws cyfrifiad Gogledd Iwerddon](http://www.nisra.gov.uk/Census/2011CensusProposedOutputs.html) (<http://www.nisra.gov.uk/Census/2011CensusProposedOutputs.html>) a gwybodaeth bellach am [gyfrifiad yr Alban](http://www.gro-scotland.gov.uk/census/censushm2011/index.html) (<http://www.gro-scotland.gov.uk/census/censushm2011/index.html>) ar gael ar lein.

Caiff yr holl dermau allweddol a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn, fel preswilydd arferol a phreswilydd byrdymor, eu hegluro yng [ngeirfa Cyfrifiad 2011](#).

Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r ystadegau hyn ac ansawdd y data ar gael yn y ddogfen [Quality and Methodology Information \(QMI\)](#).

Yn ogystal â'r wybodaeth yn y QMI, mae SYG hefyd wedi cyhoeddi [gwybodaeth sicrhau ansawdd](#) sy'n rhoi manylion am y broses sicrhau ansawdd a gyflawnwyd ar gyfer pob awdurdod lleol ac unedol ac adroddiad sy'n egluro'r [gwahaniaeth rhwng amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ac amcangyfrifon Cyfrifiad 2011](#).

Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y cyfrifiad yn galluogi llywodraeth ganolog a lleol, awdurdodau/byrddau iechyd a llawer o sefydliadau eraill i dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol. Mae SYG wedi sicrhau bod y data a gasglwyd yn diwallu anghenion defnyddwyr drwy gynnal [ymgyngoriad ar allbynnau Cyfrifiad 2011](http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/the-2011-census/census-consultations/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/the-2011-census/census-consultations/index.html>) a oedd yn eang ei gwmpas er mwyn sicrhau y bydd allbynnau Cyfrifiad 2011 yn fwy defnyddiol o ran cynllunio gwasanaethau tai, addysg, iechyd a thrafnidiaeth yn y dyfodol.

Caiff rhagor o gyfresi data o Gyfrifiad 2011 eu cyhoeddi dros y 18 mis nesaf; mae gwybodaeth ar gael ar lein ym [mhrosbectws Cyfrifiad 2011](http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html) (<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-prospectus/index.html>). Bydd y rhain yn cynnwys data pellach ac yn cwmpasu pynciau fel grwpiau ethnig manwl, crefydd, teithio i'r gwaith, iechyd a theuluoedd, hunaniaeth, yr iaith Gymraeg, cyflogaeth ac addysg.

Mae'r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr ar noson y cyfrifiad. Caiff y rhain eu llunio ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr gan gynnwys y llywodraeth, awdurdodau lleol ac unedol, busnesau a chymunedau. Mae'r cyfrifiad yn darparu ystadegau ar y boblogaeth o lefel genedlaethol i lefel leol. Mae'r bwletin hwn yn trafod y canlyniadau ar lefel genedlaethol a lefel awdurdodau unedol; fodd bynnag, bydd cyfresi data o Gyfrifiad 2011 a ryddheir yn y dyfodol yn cynnwys tabliadau ar lefelau daearyddol eraill gan gynnwys wardiau, ardaloedd iechyd, etholaethau seneddol, sectorau cod post a pharciau cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gan: Swyddfa Ystadegau Gwladol, Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Caerdydd,
Casnewydd, NP10 8XG

Cyswllt â'r cyfryngau

Ffôn: Swyddfa Cyswllt â'r Cyfryngau 0845 6041858
Rhif ar alw brys 07867 906553
E-bost: press.office@ons.gsi.gov.uk

Cyswllt ystadegol

Enw: Denise McGregor
Ffôn: 01329 444972
E-bost: census.customerservices@ons.gsi.gov.uk

Cyhoeddir **Ystadegau Gwladol** yn unol â safonau proffesiynol uchel fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Nid ydynt yn destun unrhyw ymyrraeth wleidyddol.
(h) Hawlfraint y Goron 2012.

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence>, ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth yn The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Troednodiadau

Cyflwyniad

1	Mae'r boblogaeth sydd fel arfer yn byw yma yn cyfeirio at bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr am 12 mis neu fwy, gan gynnwys y rhai sydd wedi bod yma am lai na 12 mis ond sy'n bwriadu aros am 12 mis neu fwy.
---	--

Adran 1: Poblogaeth Cymru a sut mae wedi tyfu

1	Ni chynhaliwyd cyfrifiad yn 1941, oherwydd yr Ail Ryfel Byd.
2	Roedd cyfrifiadau cynnar yn cofnodi'r boblogaeth a oedd yn bresennol, yn hytrach na phreswylwyr arferol.
3	Mae'r gymhariaeth â 2001 ac 1991 yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer y blynyddoedd hynny, mae'r gymhariaeth ag 1981 a blynyddoedd cynharach yn seiliedig ar ganlyniadau'r cyfrifiad.
4	Mae adroddiadau manwl ar fudo ar gael gan Lywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/111118sb1042011ren.pdf).
5	Mae'r diffiniadau gweithredol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad ar gael yn http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/the-2011-census/2011-census-questionnaire-content/definitions/index.html

Adran 2: Sut mae amcangyfrifon y cyfrifiad yn cymharu ag amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2010

Dim

Adran 3: Sut mae poblogaeth Cymru wedi newid dros y 100 mlynedd ddiwethaf

1	Ni chynhaliwyd cyfrifiad yn 1941, oherwydd yr Ail Ryfel Byd.
2	Roedd cyfrifiadau cynnar yn cofnodi'r boblogaeth a oedd yn bresennol, yn hytrach na phreswylwyr arferol.
3	Mae'r gymhariaeth â 2001 ac 1991 yn seiliedig ar <u>amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth</u> ar gyfer y blynyddoedd hynny, mae'r gymhariaeth ag 1981 a blynyddoedd cynharach yn seiliedig ar ganlyniadau'r cyfrifiad.
4	Ar gyfer llinellau cymharu 2001, cafodd amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth 2001 ar gyfer nifer y bobl yn y categori 90+ oed ei ddsbarthu ar draws blynyddoedd oedran unigol ar gyfer y rheini rhwng 91 a 99 oed gan ddefnyddio cyfrannau fel y'u hamcangyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011. Dangosir pobl 100+ oed fel grŵp.
5	Ystyr cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant byw y byddai grŵp o ferched yn eu cael yr un pe baent yn destun cyfraddau ffrwythlondeb oedran benodol y flwyddyn galendr dan sylw yn ystod eu blynyddoedd esgor. Mae cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn rhoi mesur cyfredol o nifer y plant a enir.

Adran 4: Dwysedd poblogaeth Cymru

Dim

Adran 5: Nifer y cartrefi yn 2011

1	Mae'r gymhariaeth â 2001 ac 1991 yn seiliedig ar <u>amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth</u> ar gyfer y blynyddoedd hynny, mae'r gymhariaeth ag 1981 a blynyddoedd cynharach yn seiliedig ar ganlyniadau'r cyfrifiad.
2	Cyfrifir maint cyfartalog cartrefi fel cyfanswm y preswylwyr mewn cartrefi wedi'i rannu â chyfanswm nifer y cartrefi. Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys preswylwyr mewn sefydliadau cymunedol.

Glossary of terms used in the tables

Age: The age of a person is derived from the date of birth question. It is a person's age in years, as at Census day 2011.

Area code: A 9-digit code used to identify unique instances of statistical geographies, (for example, wards, parishes, parliamentary constituencies, districts, etc) for which official statistics are produced. These codes have been in operation since 1st January 2011.

Census day: Sunday 27 March 2011.

Communal establishment: An establishment providing managed residential accommodation. 'Managed' in this context means full-time or part-time supervision of the accommodation. Communal establishments include sheltered accommodation units, hotels, guest houses, B&Bs and all accommodation provided solely for students (during term-time). Small hotel and guest houses are treated as communal establishments if they have the capacity to have 10 or more guests, excluding the owner/manager and his/her family. Sheltered housing is treated as a communal establishment if less than half the residents possess their own facilities for cooking. If half or more possess their own cooking facilities (regardless of use) the whole establishment is treated as separate **households**.

Communal establishment resident: A person living in managed residential accommodation who, at Census day, has lived, or intended to live there for six months or more. Individuals resident in a communal establishment for less than six months are treated as being a **resident** at their home address, apart from those with no usual address elsewhere (and who are included as residents in the communal establishment).

Household: Either one person living alone, or a group of people (not necessarily related) living at the same address who share cooking facilities and share a living room, sitting room or dining area. A household must have at least one person who is usually resident in the household. A group of **short-term residents** living together are not classified as a household, nor is a group comprising only visitors.

Household resident: A person who is a **usual resident** in a **household** at their usual address. For people with more than one address (such as students, members of the armed forces or those who work away from home during the week), the usual address is where they spend the majority of time unless they have a spouse or partner at another address, in which case the usual address is where their family lives. Students and schoolchildren living away from home during term time are treated as resident at their term-time address.

Non-UK short-term resident: a person born outside the UK who, on Census day, was present in England and Wales and intended to stay in the UK for a period of three months or more but less than 12 months. Any person born in the UK or who intended to stay longer than 12 months is treated as a **usual resident**.

Usual resident: a person who, on Census day, was: either present and permanently living in England and Wales or intended to stay for a total 12 months or more; or was not present in England and Wales on Census day but had a permanent address in England and Wales and intended to stay outside England and Wales for less than 12 months.

Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y tablau

Oedran: Pennir oedran unigolyn yn ôl y cwestiwn ynghylch dyddiad ei eni. Oedran yr unigolyn mewn blynyddoedd ydyw, ar ddiwrnod y cyfrifiad 2011.

Cod ardal: Cod naw digid a ddefnyddir i nodi enghreifftiau gwahanol o ardaloedd daearyddol ystadegol, (er enghraifft, wardiau, plwyfi, etholaethau seneddol, dosbarthiadau, ac ati) y cynhyrchir ystadegau swyddogol ar eu cyfer. Mae'r codau hyn wedi bod mewn grym ers 1af Ionawr 2011.

Diwrnod y cyfrifiad: Dydd Sul 27 Mawrth 2011.

Sefydliad cymunedol: Sefydliad sy'n darparu llety preswyl a reolir. Yn y cyd-destun hwn, ystyr y term 'a reolir' yw y caiff y llety ei oruchwylio'n llawn amser neu'n rhan amser. Mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys unedau llety gwarchod, gwestai, tai llety, llety gwely a brecwast a phob llety a ddarperir ar gyfer myfyrwyr yn unig (yn ystod y tymor). Caiff gwestai bach a thai llety eu cyfrif yn sefydliadau cymunedol os oes ganddynt le i 10 neu fwy o westai, heb gynnwys y perchennog/rheolwr a'i deulu. Caiff tŷ gwarchod ei gyfrif yn sefydliad cymunedol os oes gan lai na hanner y preswylwyr eu cyfleusterau coginio eu hunain. Os oes gan hanner neu ragor o'r preswylwyr eu cyfleusterau coginio eu hunain (waeth p'un a ydynt yn eu defnyddio) caiff y sefydliad cyfan ei gyfrif yn **gartref** unigol.

Preswlydd mewn sefydliad cymunedol: Unigolyn sy'n byw mewn llety preswyl a reolir ac sydd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, wedi byw, neu'n bwriadu byw yno, am chwe mis neu fwy. Bydd unigolion sy'n byw mewn sefydliad cymunedol am lai na chwe mis yn cael eu cyfrif fel pe baent yn **breswylwyr** yn eu cyfeiriad cartref, ar wahân i'r rheini heb gyfeiriad arferol rhywle arall (ac a gaiff eu cynnwys fel preswylwyr yn y sefydliad cymunedol).

Cartref: Naill ai un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nid oes rhaid iddynt berthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta. Rhaid i gartref gael o leiaf un person sydd fel arfer yn byw ynddo. Ni chaiff grŵp **breswylwyr byrdymor** sy'n byw gyda'i gilydd eu cyfrif yn gartref, nac ychwaith grŵp sy'n cynnwys ymwelwyr yn unig.

Preswlydd mewn cartref: Person sy'n **breswlydd arferol** mewn **cartref** yn ei gyfeiriad arferol. Yn achos pobl sydd â mwy nag un cyfeiriad (fel myfyrwyr, aelodau o'r lluoedd arfog neu'r rhai sy'n gweithio oddi cartref yn ystod yr wythnos), y cyfeiriad arferol yw'r un lle maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser oni bai bod ganddynt briod neu bartner yn byw mewn cyfeiriad arall. Os felly, y cyfeiriad arferol yw'r un lle mae eu teulu yn byw. Ystyrir bod myfyrwyr a phlant ysgol sy'n byw oddi cartref yn ystod y tymor yn preswylwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor.

Preswylwyr byrdymor nad ydynt o'r DU: person a anwyd y tu allan i'r DU a oedd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn bresennol yng Nghymru a Lloegr ac yn bwriadu aros yn y DU am gyfnod o dri mis neu fwy ond am lai na 12 mis. Caiff unrhyw un a anwyd yn y DU neu a oedd yn bwriadu aros am fwy na 12 mis ei gyfrif yn **breswlydd arferol**.

Preswlydd arferol : ystyr preswlydd arferol yw person a oedd, ar ddiwrnod y cyfrifiad: yn bresennol ac yn byw'n barhaol yng Nghymru a Lloegr neu'n bwriadu aros am gyfanswm o 12 mis neu fwy; neu nad oedd yn bresennol yng Nghymru a Lloegr ar ddiwrnod y cyfrifiad ond a oedd â chyfeiriad parhaol yng Nghymru a Lloegr ac yn bwriadu aros y tu allan i Gymru a Lloegr am lai na 12 mis.

Notes to tables

1. The main population base for outputs from the 2011 Census is the usual resident population as at census day (27 March 2011). Although the population base for enumeration included non-UK short-term residents, these are not included in the main outputs from the 2011 Census, but are analysed separately. All outputs, unless specified, are produced using only usual residents of the UK.

For 2011 Census purposes, a usual resident of the UK is anyone who, on census day, was in the UK and had stayed or intended to stay in the UK for a period of 12 months or more, or had a permanent UK address and was outside the UK and intended to be outside the UK for less than 12 months.

2. For the 2011 Census, a usual resident of the UK is anyone who, on census day 2011, was in the UK and had stayed or intended to stay in the UK for a period of 12 months or more, or had a permanent UK address and was outside the UK and intended to be outside the UK for less than 12 months. For more information see <http://www.ons.gov.uk/census>

3. A non-UK short-term resident is anyone born outside the UK who has stayed or intends to stay in the UK for a period of three months or more but less than 12 months. For more information see <http://www.ons.gov.uk/census>

4. The age of a person is derived from their date of birth. It is their age in years on their last birthday up to and including census day 2011. Dates of birth that imply an age over 115 are treated as invalid and the person's age is imputed.

5. A household is defined as one person living alone, or a group of people (not necessarily related) living at the same address who share cooking facilities and share a living room, sitting room or dining area.

6. A household resident is a person whose usual place of residence is a household, and not within managed residential accommodation in a communal establishment.

7. A communal establishment resident is a person living in managed residential accommodation who has lived, or intends to live there for six months or more. Individuals resident in a communal establishment for less than six months are enumerated at their home address, apart from those with no usual address elsewhere who are also classified as residents.

8. Figures in tables may not add exactly because they have been rounded to the nearest 100.

